**Papur 'CH'**

## Cynigion Datblygiadau gan Gynghorwyr a Swyddogion

"Mae'r ceisiadau a ganlyn wedi eu sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro yn unol ag Adran 4.6.10.4 y Cyfansoddiad a rhoddwyd sylw i'r sylwadau gafwyd, os cafwyd rhai, yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.  Bydd modd darllen y sylwadau, os ceir, yn y ffeil gynllunio berthnasol".

## Polisiau Cynllun Datblygu Ar Gyfer Ynys Mon

Bydd ceisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu yn unol â pholisïau cynllun datblygu yr ardal ac ystyriaethau eraill o bwys.  Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993), Cynllun Lleol Ynys Môn (1996). Yn ychwanegol, mae Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn (a stopiwyd) (Rhagfyr 2005) yn ystyriaeth o bwys.

"Y Cynllun a Stopiwyd" - ar 1 Rhagfyr 2005 fe benderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn "stopio gweithio" ar CDU Ynys Môn a symud ymlaen i baratoi Cynllun Datblygu Lleol.  Gosodwyd y CDU Ynys Môn gerbron y cyhoedd yn Nhachwedd 2001,  fe gyhoeddwyd newidiadau cyn yr arolwg a bu'r cynllun yn destun ymchwiliad cyhoeddus yn Haf 2003.  Cyfnod ffurfiol olaf y broses CDU oedd adroddiad yr Arolygwr yng Ngorffennaf 2004.  Mae'r dogfennau CDU hyn yn ystyriaethau o bwys wrth wneud penderfyniadau ond rhaid penderfynu ar y pwysau sydd i'w roddi i'r CDU yng ngoleuni'r polisïau, a'r gwrthwynebiadau sydd heb eu trafod, sydd yn berthnasol i'r cais sydd i'w benderfynu.

**Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications** **10.1**

Rhif y Cais: **30C279E** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mrs E Turnbull**
**c/o CDN Planning**
**1 & 2 Connaught House**
**Riverside Business Park**
**Benarth Road**
**Conwy**
**LL32 8UB**

Ail leoli 4 carafan statig a ganiatawyd dan cais rhif 30C279 gyda 2 garafan statig ychwanegol ynghyd a newid defnydd tir ar gyfer carafannau symudol a man campio yn

Re - siting of 4 static caravans approved under planning permission ref 30C279 with an additional 2 static caravans together with the change of use of land for the siting of touring caravans and tents

Min Y Ffrwd, Caravan Site, Brynteg



**Pwyllgor Cynllunio: 28/07/10**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DPJ)**

**Argymhelliad:**

Ganiatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Daw'r cais gerbron y Pwyllgor Cynllunio oherwydd bod yr ymgeisydd yn perthyn ac yn gweithio i Gynghorydd Sir Ynys Môn.

Mae'r cais wedi cael ei sgritwineiddio gan y Swyddog Monitro fel sydd yn ofynnol dan baragraff 4.6.10.4 o'r Cyfansoddiad.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r safle carafán sy'n destun y cais hwn yn cael ei ddangos ar y cynllun lleoliad sydd ynghyd â'r adroddiad hwn. Mae wedi'i leoli i'r gogledd o groeslon Brynteg ar y lôn i Maenaddwyn.

Mae gan y safle carafán ddefnydd cyfreithlon ar gyfer 18 o garafannau symudol rhwng 01 Mawrth a 31 Hydref mewn unrhyw flwyddyn galendr a 19 o garafannau parhaol i'w defnyddio i bwrpasau gwyliau.

Mae'r cais yn cael ei wneud am y canlynol:

- Ail leoli 4 uned barhaol sydd mewn bodolaeth o dan ddarpariaethau cais cynllunio 30C279 a dwy uned ychwanegol i gae sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer carafanau symudol o fewn y safle carafanau.

- Newid defnydd cae i ffurfio rhan o'r safle carafannau ac adleoli 7 carafán symudol o'r safle carafannau a caniatad am 8 pabell ychwanegol.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Pa mor dderbyniol yw cynnydd yn nifer y carafannau parhaol
- Pa mor dderbyniol yw newid defnydd y tir i gymryd y carafannau symudol sy'n cael eu hadleoli a hefyd lle i 8 o bebyll ychwanegol ar y safle carafannau.

**3. Prif Bolisiau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

CH5 (Carafanau Symudol a Phebyll)
CH8 (Carafanau Parhaol)

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

10 (Carafanau Parhaol)
12 (Safleoedd Twrio Newydd)

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

T04 (Safleoedd Carafanau Sefydlog/Cabanau Gwyliau Presennol)
T06 (Carafanau Teithiol)

## 4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd

Yr Aelod Lleol – Dim sylwadau wedi'u derbyn.

Cyngor Cymuned - Caniatáu ar sail mai dim ond 7 carafán symudol sydd i'w cymeradwyo yn ychwanegol a bod carafanau dros gyfnodau byr o amser yn cael eu cymeradwyo yn hytrach na rhai sydd ar y safle am amser hir.

Priffyrdd - Dim Argymhelliad:. Gwybodaeth ynglŷn â Llwybr Cyhoeddus 25.

Draenio – Mae digon o gapasiti yn y tanc septig presennol i gymryd y llwythi ychwanegol fydd yn cael eu cynhyrchu gan y datblygiad arfaethedig.

Dwr Cymru – Dim sylw.

Cafwyd un llythyr yn gwrthwynebu'r cais cynllunio am y rhesymau a ganlyn:

- Mae'r cais yn sarhad ar y perchennog blaenorol y gwrthodwyd rhoi caniatâd cynllunio iddo am 9 carafán barhaol a hynny oedd y rheswm paham y gwerthwyd y safle.
- Fe ganiatawyd i'r ymgeiswyr leoli 9 carafán arall, adeiladu tŷ mawr ac ail adeiladu bwthyn sy'n gysylltiedig â'r safle carafanau.
- Mae'r fynedfa i'r safle garafannau ar gongl beryglus a'r ffordd heb lwybrau. Fe ddylid gwrthod lleoli carafanau symudol a phebyll ar sail diogelwch.

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

30C279D - Lleoli 7 carafán barhaol yn cynnwys 4 yn lle carafanau parhaol a ganiatawyd yn flaenorol o dan ganiatâd cynllunio rhif 30C279 gyda thair carafan barhaol ychwanegol ynghyd â defnyddio'r tir i leoli carafanau symudol a lle gwersylla . - 13/05/10.

30C279C - Altro ac Ymestyn - 26/07/07.

30C279B - Altro ac Ymestyn - 08/03/07.

30C279A - Cais Tystysgrif Cyfreithlondeb i leoli 18 o garafannau symudol rhwng 1 Mawrth i 31 Hydref – Cyfreithlon 08/09/06.

30C279 - Diwygiad i amod (1) ar ganiatâd cynllunio TWR/717a i ganiatau 12 carafan parhaol ychwanegol i wneud cyfanswm o 19 - Caniatâd amodol 26.04.91.

T717M/AD - Codi arwydd coed heb ei oleuo - Gwrthod07/01/81

T717K/AD - Codi arwydd heb ei oleuo yn sefyll ar ei ben ei hun yn y fynedfa – Caniatáu 07/01/81.

TWR717J - Lleoli 7 carafán barhaol i bwrpasau gwyliau ac un garafán i'w defnyddio fel swyddfa – Gwrthod 07/01/81.

TWR717H - Estyniad i'r bloc toiledau presennol i wella'r cyfleusterau - Caniatáu 07/03/79.

TWR717G - Codi byngalo ar safle tŷ gwydr – Gwrthod 03/11/76

TWR717F - Altro ac ymestyn - Caniatáu
07/11/73

TWR 717E - Llunio canolfan arddio ar gae OS 1179 a rhan o gae OS 1178 - Caniatáu 01/069/71.

TWR717C - Defnyddio i bwrpasau preswyl - Gwrthod 01/12/65

TWR717B - Defnyddio tir fel Clwb yn cynnwys darparu adeilad newydd i'r Clwb, lle parcio i 200 o geir, lle chwarae i blant, pwll nofio ac addasu ffermdy yn swyddfeydd, seler gwrw a fflat - Gwrthod 06/10/65.

TWR717A - Defnyddio tir cae rhif 1177 fel safle carafanau - Caniatáu 07/10/64

TWR717 - Defnyddio cae OS rhif 1191, 1176 fel safle carafanau - Tynnwyd yn ôl 02/09/64

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Cyflwyniad**

Mae safle'r cais mewn lleoliad cefn gwlad ond ar ffin yr anheddiad, ac mewn ardal sy'n ffurfio rhan o Ardal Tirwedd Arbennig. Mae yna wahanol bolisïau sy'n ymwneud â charafannau parhaol a charafannau symudol; mae'r ddwy elfen felly'n cael eu hasesu ar wahân cyn dod i gasgliad yn y diwedd.

Fe gafwyd gwrthwynebiad sy'n ymwneud â hanes rhistr cynllunio'r safle, ac fe welir yr holl geisiadau hynny yn y tabl uchod.

**Datblygiad Carafanau Parhaol**

Mae Polisïau CH8 o Gynllun Fframwaith Gwynedd, 10 o Gynllun Lleol Ynys Môn a T04 o Gynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd yn caniatau gwneud estyniadau i'r ardal ac / neu newidiadau mewn gosodiadi i safleoedd carafanau parhaol os ydynt yn ffurfio rhan o gynllun cynhwysfawr i wella edrychiad y safle ac yn lleihau ei effaith ar y dirwedd o'i amgylch. Mae'r testun cefnogol ym mholisi T04 yn dweud na ddylai unrhyw gynnydd fod yn fwy na 10% o'r nifer cyfreithlon ar y safle. Mae'r testun cefnogol yn dweud y gallai'r gwelliannau gynnwys adleoli i wella gosodiadau neu i leihau'r effaith weledol, newid hen unedau gydag unedau mwy modern, gwella lliwiau'r carafanau, ffiniau mewnol a thirlunio, sgrinio a darparu gwell cyfleusterau. Y mae hefyd yn dweud - ar safleoedd sydd wedi



5

cyrraedd safon uchel o ran manteision amgylcheddol a thirlunio, efallai mai dim ond gwelliannau bychan ellir eu gwneud yn fwy ac efallai y gallai'r rheini ganolbwyntio ar fioamrywiaeth o fewn ac o amgylch y safle.

Mae'r cais yn golygu adleoli 4 uned barhaol sydd mewn bodolaeth o dan gais cynllunio 30C279 a hefyd ddwy uned barhaol i gae sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i garafanau symudol ar y safle carafanau. Mae'r cynnig felly yn cydymffurfio gyda'r polisi o safbwynt y niferoedd y gwneir y cais amdanynt.

Mae'r safle carafanau eisoes o safon uchel mewn termau amgylcheddol, ac wedi'i dirlunio'n sylweddol. Mae gwelliannau'n cael eu cynnig yn debyg i'r rhai y gofynnir amdanynt yn y polisïau uchod sef gwaith plannu er mwyn sgrinio yn y lleoliadau a ddangosir ar y cynlluniau arfaethedig.

Felly, mae adleoli'r carfanau parhaol yn dderbyniol. Mae pa mor dderbyniol yw'r rhan carafanau symudol yn y datblygiad yn cael ei asesu isod.

**Carafanau Symudol a'r Datblygiad Pebyll**

Mae Polisi CH5 o Gynllun Fframwaith Gwynedd, 12 o Gynllun Lleol Ynys Môn a T06 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd yn caniatau safleoedd pebyll neu garafanau symudol newydd a llecynnau ychwanegol yn amodol ar yr ystyriaethau a restrir gyda'r rhai mwyaf amlwg yn eu mysg yn ymwneud â mwynderau gweledol a thirwedd yr ardal. O ran topograffi, mae'r cae sy'n destun y cais yn is na phopeth arall o'i gwmpas ac y mae coed a gwrychoedd sefydlog o amgylch y terfynau. Fe ellir cael golygfeydd gweddol agos o'r llwybr cyhoeddus sy'n croesi'r safle. Mae yna dirlunio yno'n barod sy'n sgrinio golygfeydd o'r llwybr hwn a bwriedir gwneud gwaith plannu ychwanegol hefyd. Yn dilyn pwyso'r ystyriaethau polisi uchod, rwyf yn ystyried bod y cynnig yn dderbyniol mewn egwyddor. Gwneir asesiad o'r ystyriaethau manwl isod.

**Dynodiadau Tirwedd**

Mae safle'r cais o fewn ardal a ddynodwyd yn Ardal Tirwedd Arbennig o dan ddarpariaethau Polisi 31 o Gynllun Lleol Ynys Môn a D3 o Gynllun Fframwaith Gwynedd ac EN1 o Gynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd. Rwyf o'r farn bod y ddwy ran o'r cynnig a ddisgrifir uchod yn gallu cael ei sefydlu yn foddhaol yn y dirwedd.

**Ystyriaethau Priffyrdd**

Mae Polisi FF1 ac FF12 o Gynllun Fframwaith Gwynedd a Pholisi 1 a 26 o Gynllun Lleol Ynys Môn a Pholisi Cynllunio Cymru (2010), Nodyn Cyngor Technegol 18 (Cymru) Trafnidiaeth, Safonau Parcio Ynys Môn (2008) a GP1 a TR10 o Gynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd yn ymwneud ag ystyriaethau parcio a mynediad. Nid yw'r awdurdod priffyrdd wedi lleisio unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad gan nad ydyw'r cynnydd mewn traffic o'r datblygiad yn arwyddocaol.

Mae'r llythyr a dderbyniwyd yn gwrthwynebu yn dweud bod y fynedfa i'r safle carafanau ar gongl beryglus ar ffordd sydd heb lwybrau troed ac y dylid felly wrthod y cais i leoli'r carafanau symudol a'r pebyll ar sail diogelwch y ffordd. Rhaid egluro nad oes unrhyw garafannau symudol ychwanegol yn cael eu bwriadu fel rhan o'r cais hwn. Mae Adain Priffyrdd y Cyngor wedi pwyso a mesur y gwrthwynebiad wrth wneud ei argymhellion ac

nid oes ganddo unrhyw wrthwynebiadau.

**Effaith ar Fwynderau**

Mae Polisi 1 o Gynllun Lleol Ynys Môn a GP 1 o Gynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd yn ymwneud â'r effaith ar fwynderau preswyl a'r problemau llygru a niwsans fydd yn cael eu hasesu wrth benderfynu ceisiadau cynllunio.
Mae yna eiddo preswyl tua'r gogledd i'r safle carafanau sydd yn uwch a bydd iddo olygfeydd o safle'r cais. Mae yna eiddo preswyl ar y briffordd gyhoeddus yn y fynedfa i safle'r cais. Nid yw'n cael ei ystyried y bydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau'r eiddo rhain.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod y datblygiad yn dderbyniol gyda'r amodau sy'n cael eu rhestru isod.

**8. Argymhelliad:**

Bod caniatâd cynllunio'n cael ei roi gyda'r amodau a ganlyn:

**(01) Rhaid cychwyn y datblygiad y cyfeirir ato yn y caniatad cynllunio hwn ddim hwyrach na (phum) mlynedd o ddyddiad y caniatad hwn.**
Rheswm : I gydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Cwblheir y datblygiad a ganiateir trwy hyn mewn cytundeb llwyr a'r manylion ar cynlluniau wedi dablu o dan ac a gynhwysir yn y ffurflen gais, ac mewn unrhyw ddogfennau eraill gyda'r cyfryw cais.**

| Dyluniad | Cyfeiriad | Derbyniwyd |
|---|---|---|
| Lleoliad Safle | AL(0)SITE | 28.05.10 |
| Cynllun Safle Presennol | SU01 | |
| Cynllun Safle Arfaethedig | PL01 | 29.06.10 |

**Oni bai cymeradwywyd yn ysgrifenedig fel arall gan yr awdurdod cynllunio lleol neu wedi cynnwys o dan ddarpariaeth unrhyw amodo'r caniatâd cynllunio.**

Rheswm I sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

**(03) Ni chaniateir gosod unrhyw garafán mewn unrhyw fan ar y safle carafán ac eithrio'r rhai a ddangosir ar y cynllun a gymeradwywyd (PL01) heb derbyn cyn gymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm I sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu ac ei gadw fel sydd yn cael ei geisio amdano.

**04) Ni chaniateir lleoli mwy na 24 carafán barhaol, 18 carafán symudol neu garafannau modur ac 8 pabell ar y safle carafán ar unrhyw amser.**

Rheswm: Er mwyn diffinio sgôp y caniatad hwn.

**(05) Ni chaniateir i neb fyw yn y carafanau parhaol a ganiateir yma rhwng 31 Hydref mewn unrhyw flwyddyn ac 01 Mawrth yn y flwyddyn ddilynol.**

Rheswm: Mae'r caniatâd yn cael ei roi ar y sail y bydd yr unedau'n cael eu defnyddio i bwrpasau gwyliau yn unig.

**(06) Ni chaniateir i unrhyw garafannau symudol, carafanau modur, carafán na phebyll barhau ar y safle carafán rhwng 31 Hydref mewn unrhyw flwyddyn ac 01 Mawrth yn y flwyddyn ddilynol.**

Rheswm: Mae'r caniatâd yn cael ei roi ar y sail y bydd yr unedau'n cael eu defnyddio i bwrpasau gwyliau yn unig.

**Er Gwybodaeth**

***Mae yna lwybr cyhoeddus ar safle'r cais (25). Nid yw rhoi caniatâd cynllunio yn caniatáu i'r ymgeisydd darfu gyda'r hawl tramwy cyhoeddus. Byddai'n rhaid i unrhyw ddargyfeirio, diddymu'r llwybr neu ddiwygiad angen caniatâd o dan ddarpariaethau deddfwriaethol ar wahân ac nid yw'n cael ei roi gan y caniatâd cynllunio hwn.***

***Mae angen Trwydded Safle ar wahân o dan y Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygiad 1960, a fuasech mor garedig a chysylltu Adai Gwasanaethau Amgylcheddol y cyngor am fanylion. Mae'r hysbyseb penderfyniad hwn yn ymwneud yn unig gyda'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel diwygiwyd) ac nid yw yn awgrymu y cymeradwyir unrhyw safonau o dan anghenion Trwydded Safle.***

**9. Polisiau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D3 (Ardaloedd Cadwraeth Tirwedd)
FF11 (Cynhyrchu Traffig)

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

1 (Polisi Cyffredinol)
31 (Ardal Tirwedd Arbennig)

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

GP1 (Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu)
EN1 (Cymeriad y Dirwedd)

Polisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2002)

Nodyn Cyngor Technegol 13 (Cymru) Twristiaeth

Nodyn Cyngor Technegol 18 (Cymru) Trafnidiaeth

## 10. Ymatebion Eraill di Faterol a Godwyd

Dim wedi'i dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications** **10.2**

Rhif y Cais: **36C283B** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr Steven Owen**
**c/o Penseiri Russell-Hughes Architects**
**56 Bridge Street,**
**Llangefni,**
**Ynys Môn.**
**LL77 7HH.**

Addasu'r fynedfa a ganiatawyd yn flaenorol dan ganiatâd cynllunio rhif 36C283A ger

Alterations to the access previously approved under planning permission no. 36C283A adjacent

Ael y Bryn, Llangristiolus



**Pwyllgor Cynllunio: 28/07/10**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (EH)**

**Argymhelliad:**

Ganiatad

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r ymgeisydd yn gweithio yn Adran Cynllunio a Gwasanaethau Amgylcheddol y Cyngor Sir.

Mae'r cais wedi cael ei sgritwineiddio gan y Swyddog Monitro fel sydd yn ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 o'r Cyfansoddiad.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r safle ym mhentref Llangristiolus ar dir sy'n union gyferbyn â'r ysgol gynradd leol. Mae'r annedd wedi cael ei hadeiladu ond heb ei gorffen.

Mae'r cynnig yn ymwneud â diwygiad i'r fynedfa a ganiatawyd o dan gais cynllunio 36C283A. Roedd y cynllun gafodd ei ganiatáu o'r blaen yn dangos un fynedfa i'r annedd a chaeau cyfagos. Mae'r cynllun hwn sy'n cael ei ystyried yn ymwneud â dwy fynedfa ar wahân - un i'r annedd a'r llall i'r cae cyfagos.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif fater yw diogelwch y priffyrdd.

**3. Prif Bolisiau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad

**Nodyn Cyngor Technegol 18 – Trafnidiaeth**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol – Dim ymateb.
Cyngor Cymuned – Dim ymateb.

Priffyrdd – Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor.
Hysbysebwyd y cais gyda rhybudd safle a rhybuddion personol i ddeiliaid eiddo cyfagos. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd 13 Gorffennaf 2010 ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw sylwadau croes wedi'u derbyn.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

36C283: Cais amlinellol i godi annedd ynghyd â dymchwel yr adeilad presennol ar ran o gae O.S rhif 9665 ger Ael y Bryn, Llangristiolus. Caniatáu -25.11.08

36C283A: Cais llawn i godi annedd, creu mynedfa i gerbydau a dymchwel y cwt 'nissen' ar ran o gae O.S 9665 ger Ael y Bryn, Llangristiolus. Caniatáu - 14.05.09

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Priffyrdd** – Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad mae'r Awdurdod Priffyrdd wedi gofyn am gynllun yn dangos y lleiniau gweledEdd, ond, nid oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig mewn egwyddor.

**Dyluniad** – Bydd y wal arfaethedig yn ffrynt y ddwy fynedfa yn cael ei hadeiladu gyda charreg leol naturiol sydd yn gweddu gyda'r pethau o gwmpas.

**7. Casgliad**

Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad yn dilyn yr ymgynghori ffurfiol, o safbwynt cynllunio'r mynedfeydd arfaethedig, o ran deunyddiau a lleoliad ac mae'r cyfan yn ymddangos yn rhesymol.

**8. Argymhelliad:**

**Caniatâd**

**(01) Rhaid i'r datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn ag ef gael ei ddechrau heb fod yn hwyrach na diwedd pum mlynedd sy'n dechrau gyda dyddiad y caniatâd hwn**

Rheswm: Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid adeiladu'r datblygiad a ganiateir yma yn hollol unol â'r cynllun(iau) a gyflwynwyd ar 17.06.2010 o dan gais cynllunio cyfeirnod 36C283B.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisiau Perthnasol Eraill**

Dim

**10. Ymatebion Eraill di Faterol a Godwyd**

Dim